**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

## SC(3)-22-09 Papur 1

**Papur ar gyfer Sesiwn Dystiolaeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Tlodi Tanwydd**

### 1. Cyflwyniad

Ar 9 Tachwedd 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Tanwydd ddiwygiedig. Daw'r ymgynghoriad i ben ar ddechrau mis Ionawr 2010.


Atodir copi o'r ddogfen ymgynghori fel Atodiad i'r papur hwn. Mae'r ymgynghoriad yn asesu sefyllfa gyfredol tlodi tanwydd yng Nghymru a'r camau gweithredu a gynigir i fynd i'r afael ag ef.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y camau sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad gyda'r nod o leddfu tlodi tanwydd. Nodir manylion pellach am ddiffiniadau, cefndir cyffredinol a thueddiadau tlodi tanwydd yn y ddogfen ymgynghori yn yr Atodiad.

### 2. Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Pasiwyd y Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni yn 2000, a chyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Tanwydd gyntaf Cymru yn 2003. Hyd at 2004, gwnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

*Siart 1: Gostyngodd tlodi tanwydd hyd at 2004, ond mae wedi codi ers hynny*




*Ffynonellau: 6ed Adroddiad Blynyddol Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU 2008; Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 - prif ystadegau tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer 2005 a 2006*

Fodd bynnag, gwyrdrowyd y cynnydd cadarnhaol hwn yn 2004. Awgrymodd data o arolwg eiddo Byw yng Nghymru yn 2004, a gwaith modelu dilynol, fod nifer yr aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd wedi cynyddu'n sylweddol (fel y nodir yn Nhabl 2).

Tabl 2: Niferoedd amcangyfrifedig o aelwydydd mewn tlodi tanwydd

| Blwyddyn | Amcangyfrif o gyfanswm yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd | Amcangyfrif o nifer yr aelwydydd agored i niwed sydd mewn tlodi tanwydd |
|---|---|---|
| 2004 | 134,000 | 115,000 |
| 2005 | 166,000 | 142,000 |
| 2006 | 240,000 | 209,000 |

*Ffynhonnell: Tlodi Tanwydd yng Nghymru 2004 - prif ystadegau tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer 2005 a 2006*

Er bod rhaglenni Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu i sicrhau bod perfformiad ynni cartrefi wedi parhau i gynyddu ers 2000 (gweler Tabl 3), mae prisiau ynni wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ers 2004 (gweler Siart 4). Mae'r duedd i gynyddu costau tanwydd yn cyfateb i'r cynnydd mewn tlodi tanwydd ers 2004.


*<u>Tabl 3: Gweithgarwch effeithlonrwydd ynni</u>*

| | HEES (aelwydydd a gynorthwyir) | Rhwymedigaethau cyflenwyr |
|---|---|---|
| 2001/2 | 11,021 | dd/g |
| 2002/3 | 14,466 | 11,419* |
| 2003/4 | 12,572 | 26,525* |
| 2004/5 | 13,149 | 53,969* |
| 2005/6 | 9,834 | Disgwylir data yn ddiweddarach yn 2009 |
| 2006/7 | 13,739 | Disgwylir data yn ddiweddarach yn 2009 |
| 2007/8 | 18,647 | Disgwylir data yn ddiweddarach yn 2009 |
| 2008/9 | 15,199 | Disgwylir data yn 2010 |

* *Gosodiadau cwmnïau ynni fel y'u nodir gan Gronfa Ddata Effeithlonrwydd Ynni Cartref yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni*

Er gwaethaf y dirwasgiad, mae'r incwm sydd gan aelwydydd i'w wario wedi'i gynnal yn gymharol dda, gyda chymorth chwyddiant sy’n gostwng, sydd wedi galluogi rhai aelwydydd i ymdopi â'r cynnydd mewn prisiau tanwydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i bob aelwyd. Yn benodol, bydd yr effaith a gafodd colledion swyddi ar aelwydydd yn ystod y dirwasgiad wedi bod yn andwyol. Mae’r cynnydd mewn diweithdra wedi cael yr effaith fwyaf ar gymunedau sy’n agored i niwed sydd wedi gweld lefelau uchel o ddiweithdra a thlodi yn y gorffennol, gan roi pwysau ar eu gallu i osgoi tlodi tanwydd.


*Siart 4: Prisiau cynyddol tanwydd*




*Ffynhonnell: Tueddiadau a Phrisiau Ynni BERR Awst 2009*

Er gwaethaf y ffaith bod prisiau tanwydd wedi bod yn gostwng yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig olew gwresogi (sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd economaidd yn 2008/09), y duedd sy'n debygol o gael ei gweld yn yr hirdymor yw cynnydd parhaus mewn prisiau.

*<u>Siart 5: Rhagwelir y bydd prisiau ynni yn parhau i gynyddu hyd at 2018</u>*




*Ffynhonnell: Canllawiau'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar werthuso ac arfarnu'r polisi ar nwyon tŷ gwydr yn adrannau'r Llywodraeth, Mai 2009*

Caiff amcangyfrifon o lefel tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2008 eu cyhoeddi yn 2010. Bydd y data yn ein helpu i ddeall sut mae gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni, cynnydd mewn prisiau tanwydd a newidiadau mewn incwm wedi effeithio ar dlodi tanwydd yn cynnwys p'un a fu unrhyw newidiadau sylweddol yn ei ddosbarthiad ymhlith poblogaeth Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am dueddiadau tlodi tanwydd yn yr Atodiad.

## 3. Strategaeth Tlodi Tanwydd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod y cynnydd sylweddol mewn prisiau tanwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith ar nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r ffactorau hyn, i raddau helaeth, y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth y Cynulliad ac maent yn golygu bod cyflawni targed 2010 yn heriol iawn. Fodd bynnag, parhawn i fod yn benderfynol o wneud popeth sy'n rhesymol bosibl i leddfu tlodi tanwydd yng Nghymru.

Dull arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad drwy'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yw:

- Pan fydd gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau i gymryd camau a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at leddfu tlodi tanwydd, byddwn yn sicrhau bod y cymorth a'r arian a rown yn cael eu targedu at y rhai mwyaf anghenus.
- Hyrwyddo'r broses o gydgysylltu cymorth, nid yn unig o ran y darparwyr

gwahanol sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi plant ond hefyd drwy ddod o hyd i ffyrdd o alluogi gwasanaethau a rhaglenni eraill i ategu camau a fydd yn cynorthwyo i leddfu tlodi tanwydd.

• Gweithio gydag eraill i nodi a thargedu'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yn gyntaf a chynorthwyo'r aelwydydd hynny i gael gafael ar gymorth i fynd i'r afael â lefelau incwm, prisiau ynni a pherfformiad ynni eu heiddo. Bydd llawer o'r cymorth hwn yn cael ei roi gan sefydliadau ar wahân i Lywodraeth y Cynulliad ond ein nod yw galluogi mynediad a chefnogi gwaith cydgysylltu.

• Pan fydd gan sefydliadau eraill y pwerau i weithredu, er enghraifft mewn perthynas â phrisiau ynni, lefelau incwm a'r system budd-daliadau, byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rhan ragweithiol yn y broses o ddylanwadu ar benderfyniadau.

• Sicrhau bod rhaglenni sy’n anelu at wella effeithlonrwydd ynni cartref yn arwain at welliannau hirdymor yn ansawdd y stoc dai ac yn lleihau ei hôl troed.

## 4. Buddsoddi i wella effeithlonrwydd ynni

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymo buddsoddiad sylweddol i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws amrywiaeth eang o raglenni. Dylid nodi bod y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar dlodi tanwydd i raddau gwahanol. Fodd bynnag, mae gwella effeithlonrwydd ynni eiddo yn cyfrannu at atal tlodi tanwydd yn yr eiddo hwnnw yn y dyfodol.  Nodir y rhaglenni allweddol isod:

| **Cynllun** | **Cyllideb (a ragwelir 09/10 - 11/12)** | **Nifer yr aelwydydd sy'n debygol o gael cymorth (Ffigurau hyd at 2012** ac yn seiliedig ar wariant ar gyfartaledd o £3000 - £5000 fesul aelwyd oni nodir fel arall**)** | **Swyddi / budd economaidd (Blynyddoedd o gyflogaeth person a grëwyd hyd at 2012)** |
|---|---|---|---|
| Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref | £60m | 2009/2010 = 18000<br>2010-/2011= 18000<br>2011-2012= 3000<br><br>Cyfanswm = 39000 | 960- 1920 |
| Buddsoddi yn Safon Ansawdd Tai Cymru<br>(Ffigurau bras fel cyfran o SATC a wariwyd ar effeithlonrwydd ynni gan ALlau a Chymdeithasau Tai - nid arian Llywodraeth Cynulliad Cymru) | £150m | 30,000-50,000 (am y 2 flynedd nesaf) | 2400-4800 |
| Arian Buddsoddi Cyfalaf Strategol Adeiladau Carbon Isel Cymru Gyfan | £24m (gwariwyd £2m yn 08/09) | 4800-8000 | 384-768 |
| Arian Buddsoddi Cyfalaf Strategol Rhanbarth Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd | £12m | 2400-4000 | 192-384 |
| Ardaloedd adnewyddu | £1m dros 2 flynedd | 100 - 167 | 8-16 |

| Cynllun | Cyllideb (a ragwelir 09/10 - 11/12) | Nifer yr aelwydydd sy'n debygol o gael cymorth (Ffigurau hyd at 2012 ac yn seiliedig ar wariant ar gyfartaledd o £3000 - £5000 fesul aelwyd oni nodir fel arall) | Swyddi / budd economaidd (Blynyddoedd o gyflogaeth person a grëwyd hyd at 2012) |
|---|---|---|---|
| | (Cynllun peilot tair blynedd. Blwyddyn gyntaf wedi'i chwblhau) | | |
| Rhaglen Ewropeaidd Arfaethedig | £10m - £30m (cynlluniau yn cael eu datblygu) | £10m =2000 – 3333<br>£30m =6000 - 10000<br>(Ni chynhwysir yn y cyfanswm isod) | £10m=160-320<br>£30m=480-960<br>(Ni chynhwysir yn y cyfanswm isod) |

Mae'n debygol y daw arian ychwanegol ar gyfer rhaglenni effeithlonrwydd ynni o adrannau eraill gan gynnwys isadran Adnewyddu Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyrannwyd £173m hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2011 ar gyfer tai a ariennir gan y Grant Tai Cymdeithasol (GTC) a adeiledir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r tai hyn fodloni'r Cod Cartrefi Cynaliadwy ar lefel 3 (25% yn uwch na’r rheoliadau adeiladu) gyda'r bwriad o symud i lefelau uwch o'r Cod cyn gynted â phosibl.

I lywio'r materion a'r amserlenni ar gyfer cyflawni lefelau uwch o’r cod, mae'r Gyfarwyddiaeth Dai wrthi'n cynnal prosiect peilot sy'n cynnwys adeiladu tua 400 o dai i lefel 4 a 5 y cod.

Mae buddsoddiad ychwanegol hefyd ar gael gan raglenni Llywodraeth y DU a rhwymedigaethau cyflenwyr:

| Cynllun | Cyllideb (a ragwelir 09/10 - 11/12) | Nifer yr aelwydydd sy'n debygol o gael cymorth | Swyddi / budd economaidd |
|---|---|---|---|
| Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT) | £80m (Dyma'r ffigur tebygol hyd at 2012) | 300,000<br>(Targed bras hyd at fis Rhagfyr 2011 Pro rata o ffigurau'r DU[1])<br><br>Cynhelir ymgynghoriad ar y cyfnod ar ôl Ebrill 2011 - Rhagfyr 2012 | 1280-2560 (hyd at 2012) |

[1] Mae CERT yn broses a arweinir gan fesurau. I gael nifer yr aelwydydd yn fras mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn defnyddio ystadegau cymysgedd dangosol sy'n dangos y mesurau a gyflawnwyd yn fras. Cyfanswm y gwaith inswleiddio llofft/wal geudod/wal solet a wnaed minws traean nifer y waliau ceudod i gyfrif am amryw fesurau yn yr un cartrefi. Mae'r ffigur yma yn ffigur pro rata i Gymru er nad oes gorfodaeth ar gyflenwyr ynni i ymrwymo i'r lefel hon o waith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau (CESP) | £18m | 4,500 (Yn seiliedig ar gost prosiect amcangyfrifedig DECC pro rata a gwariant ar gyfartaledd o £3000 - £5000 fesul aelwyd) | 288-576 |

Un o'r ffactorau allweddol y bydd ein gweithgarwch yn canolbwyntio arno yw cyfuno'r rhaglenni gwahanol hyn a sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y ffynonellau buddsoddi gwahanol. Disgwyliwn y bydd cyfanswm o 76,300 - 101,200 o aelwydydd yn cael budd o raglenni a arweinir gan y Llywodraeth a darparwyr tai cymdeithasol a thua 380,800 - 405,700 o aelwydydd o gyfanswm y buddsoddiad sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad a rhaglenni'r DU yng Nghymru.

Yn ogystal â helpu i leddfu tlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon, bydd y buddsoddiad hwn yn ysgogi'r farchnad i fusnesau gan ddarparu nwyddau a gwasanaethau carbon isel a chreu a chynnal swyddi.

Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ac Arbed: Rhaglen Fuddsoddi Perfformiad Ynni Strategol yn yr adrannau canlynol.

### 4.1 Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn amlinellu cynigion ar gyfer rhaglen Cymru gyfan well i helpu deiliaid tai i leihau effaith biliau tanwydd a bydd y rhaglen hon yn disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Cytunir ar y rhaglen erbyn diwedd 2010. Bydd y rhaglen gydgysylltiedig yn cynnwys cyngor ar effeithlonrwydd ynni, tariffau a budd-daliadau, ynghyd â chysylltiadau â chyllid cwmnïau ynni a rhaglenni eraill a ddatblygir ar lefel y DU a Chymru.

Bydd y rhaglen newydd yn gweithio tuag at sefyllfa lle y caiff y gallu i fanteisio ar bob math o gymorth i helpu i leihau effaith biliau tanwydd ei gydgysylltu drwy gyfrwng un pwynt canolog a rhwydwaith atgyfeirio cryfach a mwy o faint. Byddwn yn cynorthwyo asiantaethau a phartneriaid lleol i atgyfeirio deiliaid tai at y rhaglen newydd.

Bydd lefel y cymorth a roddir i ddeiliaid tai yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, a bydd yn cynnwys:

- Amrywiaeth o wasanaethau cyngor a chymorth (yn cynnwys drwy sefydliadau partner)
- Mynediad cydgysylltiedig i ffynonellau ariannu sydd ar gael yn eang megis y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (a'i olynydd).

- I ddeiliaid tai yr ystyrir eu bod fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi tanwydd (yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael), cynigir asesiad o’r tŷ cyfan i nodi'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o wella perfformiad ynni eu heiddo. Yna bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu'r gwelliannau mwyaf priodol (yn amodol ar gyfyngiadau penodol, a adolygir o bryd i'w gilydd)

Bydd cymhwysedd i gael asesiadau o'r tŷ cyfan a phecynnau gwella a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad yn dibynnu ar berfformiad ynni yr eiddo ac amgylchiadau cyfredol deiliad y tŷ. Caiff cymhwysedd ei ddiffinio mewn rheoliadau a/neu benderfyniadau o bryd i'w gilydd, a bydd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael yn nhermau'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o wynebu tlodi tanwydd. Cynigir y bydd cymhwysedd cychwynnol i'r deiliaid tai hynny sy'n bodloni'r holl feini prawf canlynol:

- yn cael budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.
- yn byw mewn eiddo sy'n arbennig o aneffeithlon (ar hyn o bryd disgwylir i hyn olygu'r deiliaid tai hynny sy'n byw mewn cartref y disgwylir iddo gael gradd F neu G ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC).
- yn byw mewn llety preifat neu lety ar rent. Ni fydd tai cymdeithasol yn gymwys ar gyfer y pecynnau gwella hyn. Mae rhaglenni eraill, megis ein cynlluniau yn seiliedig ar ardal a'r Rhaglen Arbed Ynni Gymunedol, yn cynnig cyfleoedd ariannu ar gyfer cartrefi aneffeithlon yn y sector tai cymdeithasol.

Cynigir i Lywodraeth y Cynulliad barhau i ddarparu grant rhannol nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer inswleiddio llofftydd a waliau ceudod i ddeiliaid tai yr ystyrir eu bod yn agored i effeithiau tlodi tanwydd. Caiff ei bennu ar lefel a fydd yn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl o arian cyflenwyr ynni neu arian arall y DU gyfan cyn i Lywodraeth y Cynulliad ddefnyddio ei harian ei hun. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad ydym yn dyblygu ffynonellau ariannu. Bydd y grant rhannol 'wrth gefn' os bydd problem o ran defnyddio cyflenwr ynni neu arian arall y DU gyfan ar gyfer inswleiddio llofft neu wal geudod am ddim neu am gost ostyngol.

Cefnogwyd dull cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad o fuddsoddi mewn gwella perfformiad ynni cartrefi a feddiannir gan bobl sy’n wynebu tlodi tanwydd a nodir uchod gan y mwyafrif o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni (lle y'i cynigiwyd yn gyntaf). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr am allu gwneud sylw ar fanylion pellach y cynigion. Cytunir ar ein rhaglen tlodi tanwydd Cymru gyfan erbyn diwedd 2010.

### 4.2 Rhaglen Fuddsoddi Perfformiad Ynni Strategol (Arbed)

Ceir mwy o gydnabyddiaeth hefyd fod buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni domestig yn rhoi hwb economaidd. Mae effeithlonrwydd ynni domestig yn un o brif ysgogwyr y Strategaeth Swyddi Gwyrdd o ystyried ei arddwysedd llafur uchel (amcangyfrifa cyfernodau llafur Trysorlys EM, ar brisiau 2009, fod 16-32 blynedd o gyflogaeth person yn cael eu cynhyrchu am bob £1m a warir ar

fentrau addasu tai - mae'r amrywiaeth o ganlyniad i'r technolegau/mesurau gwahanol sydd ar gael o ran effeithlonrwydd ynni domestig, y mae arddwysedd llafur rhai ohonynt yn uwch nag eraill).

Mae effeithlonrwydd ynni domestig yn sector pwysig o ran creu swyddi a argymhellwyd gan CBI/TUC yn eu papur ar y cyd i uwchgynhadledd economaidd gyntaf Cymru, ac fe'i nodwyd hefyd fel blaenoriaeth gan yr Arglwydd Stern yn ei adroddiad Towards a Green Economic Recovery a chan yr UE yn ei Gynllun Adfer Economaidd Ewropeaidd - ac rydym yn gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau bod y buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru yn cael ei ategu gan fesurau sy'n ymwneud â'r ochr gyflenwi i sicrhau y ceir manteision o ran cyflogaeth a busnesau lleol.

Sefydlwyd y Rhaglen Fuddsoddi Perfformiad Ynni Strategol (Arbed) er mwyn cydgysylltu'r arian a roddwyd i Gymru ar gyfer effeithlonrwydd ynni domestig a'i wario'n strategol. Bydd buddsoddiad yn canolbwyntio ar gartrefi incwm isel sy'n wynebu tlodi tanwydd i sicrhau bod yr aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn cael cymorth. Amcangyfrifwn dros y tair blynedd nesaf, os byddwn yn llwyddo i ddenu arian i Gymru, y caiff hyd at £350m ei fuddsoddi ym maes effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru.

Wrth fabwysiadu dull mwy strategol a chydgysylltiedig o ymdrin ag ariannu effeithlonrwydd ynni domestig, blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn dod i Gymru a'i fod yn cael ei gyfeirio at weithgareddau a fydd yn sicrhau'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mwyaf i Gymru.

## 5. Cyngor a chymorth

Neges gyson gan yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni oedd yr angen i sicrhau bod cyngor a chymorth yn cael eu cydgysylltu'n well, ei bod yn haws manteisio arnynt ac y cânt eu darparu yn y fformat gorau i'r rhai y mae angen cyngor arnynt.

Wrth adolygu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni a rhoi'r gwaith o reoli'r cynllun newydd ar dendr, byddwn yn datblygu manyleb i sefydlu pwynt canolog clir i alluogi cyfeiriadau a chyngor.

Bydd y 'pwynt canolog' hwn yn cydgysylltu'r gallu i fanteisio ar gyfeiriadau at y canlynol a chyfeiriadau ganddynt:

- darparwyr cyngor eraill
- asiantau cymorth lleol
- arian cwmnïau ynni
- pecynnau gwella ynni Llywodraeth y Cynulliad

Nid creu gorbenion newydd sylweddol yw'r bwriad, ond datblygu'r llinell gymorth gyfredol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun i wasanaeth a all gynnig atgyfeiriadau cynhwysfawr a sicrhau'r buddiannau gorau posibl o'r holl

wasanaethau a gynigir gan y sector statudol, y trydydd sector a darparwyr cwmnïau ynni.

## 6. Sicrhau'r incwm mwyaf posibl

Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru yn nodi'r angen i ddarparu gwasanaeth cyngor integredig o ran y ffordd y gellir lleihau biliau cyfleustodau drwy wella effeithlonrwydd ynni a chyngor ar sut y gall aelwydydd reoli eu dyledion yn well a chynyddu eu hincymau drwy fanteisio ar fudd-daliadau neu leihau gwariant gyda chyngor arbenigol ar arian.

Ymhlith y mesurau allweddol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a ddatblygir drwy'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol mae:

- Cynnwys tlodi tanwydd yng ngwaith y tîm newydd o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i Gymru a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Gweithio gyda'r tîm o Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i gynyddu ymwybyddiaeth o ffynonellau lle ceir cyngor diduedd ar ddyled yn rhad ac am ddim, gan feithrin partneriaethau rhwng asiantaethau cyngor ar ddyled a benthycwyr trydydd sector lleol.
- Datblygu mudiad undebau credyd cryf a chynaliadwy ledled Cymru, sy'n hygyrch i bob dinesydd ac sydd â'r capasiti i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau ariannol fforddiadwy.
- Annog a chefnogi ffyrdd o leihau biliau cyfleustodau yn cynnwys:-
    - helpu deiliaid tai i ystyried a allant gael y cynigion gorau sydd ar gael drwy newid cyflenwyr ynni
    - helpu i sicrhau bod yr aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed yn manteisio ar 'dariffau cymdeithasol' er mwyn sicrhau y gallant brynu ynni yn rhatach
    - annog deiliaid tai i gael Gwiriad Hawl i Fudd-dal er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael.
    - gwneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon

Ymhlith mentrau parhaus Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae ganddynt yr hawl i'w gael o ran cynhwysiant ariannol mae:

- dyrannu £1m y flwyddyn am y tair blynedd nesaf i roi mwy o gymorth i bobl gael Budd-dal Treth Gyngor a Budd-dal Tai. I gyflawni'r nod hwn, mae grantiau yn cael eu talu i awdurdodau lleol rhwng 2008 a 2010 i'w galluogi i ymgysylltu â'r sefydliadau perthnasol fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

- ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru i gynnal ymgyrch beilot £500,000 i gynyddu nifer y teuluoedd â phlant anabl sy'n cael budd-dal.

- gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HRMC) a phartneriaid eraill i roi cymorth cyflogaeth ychwanegol mewn ardaloedd targed, gan godi ymwybyddiaeth o Gredydau Treth Gwaith ac ystyried sut i gynyddu'r niferoedd sy'n eu cael.

- cefnogi'r cynllun Cyngor Adbrynu Dyledion ac Arian (DRAMA) i ymdrin â phroblemau dyledion ac allgau ariannol mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae DRAMA wedi rhoi benthyciadau gwerth dros £350,000 i fwy na 500 o bobl ac wedi darparu gwasanaeth cwnsela i nifer fwy o lawer.

- hyrwyddo ymgysylltu rhagweithiol â chynlluniau cynilo a gefnogir gan Lywodraeth y DU megis cyfrif y Porth Cynilo a chyfrif y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CRF), y gellir cael gafael arnynt drwy Undebau Credyd. Gall pobl sydd â hawl i fudd-daliadau neu gredydau treth penodol fanteisio ar y cynllun o 2010 ac fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol ac annog pobl i gynilo. Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i "roi Bond Plant ychwanegol i'r holl blant sy'n dechrau ysgol". Caiff yr ymrwymiad hwn ei weithredu drwy gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru sydd â'r nod o roi arian ychwanegol i Gronfa pob plentyn sy'n byw yng Nghymru yng nghamau cynharaf eu haddysg gynradd.

- ariannu Undeb Credyd Robert Owen i barhau â phrosiect Monergy sy'n darparu gwasanaeth ledled Sir Drefaldwyn sy'n cyfuno gwasanaeth cwnsela ar ddyledion â chyngor ar effeithlonrwydd ynni, help wrth bennu cyllideb a thalu biliau a manteisio ar fenthyciadau a chyfrifon cynilo. Caiff yr Undeb Credyd £20,447 yn 2009-10.

**7. Prisiau ynni**

Mae'r cynnydd mewn prisiau ynni wedi bod yn ffactor allweddol yn y cynnydd mewn tlodi tanwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Nid yw rheoleiddio prisiau ynni yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth y Cynulliad ond defnyddiwn bob cyfle i ddylanwadu ar gwmnïau ynni, Ofgem a Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Cefnogwn y gwaith o ddatblygu cytundebau gwirfoddol cyflenwyr a chyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod cymorth o ran prisiau cymdeithasol yn statudol. Byddwn yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli i Lywodraeth y DU yn ystod y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth ac ymgynghori arni. Rydym hefyd yn cefnogi penderfyniad diweddar Llywodraeth y DU i gyflwyno mesuryddion craff ledled y DU. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad gwnaethom bwysleisio y dylai’r gwaith o gyflwyno mesuryddion craff dargedu cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn gyntaf gan mai hwy fyddai’n debygol o gael y budd mwyaf. Gallai'r manteision hyn gynnwys biliau mwy rheolaidd a chywir, gwasanaeth cwsmeriaid a mesurau rheoli dyledion gwell, a'r gallu i fanteisio ar dariffau priodol yn haws.

Yr wyf yn cyfarfod â’r chwe chyflenwr ynni mawr yn rheolaidd ac wedi sôn wrthynt am brisiau ynni, yn arbennig o ran eu meini prawf cymhwyso ar gyfer tariffau cymdeithasol a'r costau a godir ar gwsmeriaid ar gyfer mesuryddion rhagdalu.

Wrth roi cyngor drwy ein rhaglenni gan gynnwys y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, ein bwriad yw sicrhau y bydd yn cwmpasu cyngor ar dariffau ynni.